Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Llwynderw**

**Bridgend Road**
**Maesteg**
**CF34 0BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/08/2024

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Llwynderw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Tŷ Llwynderw yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Ceir tîm o staff bach a phrofiadol sy'n gyfarwydd â'r bobl ac sy'n gweithio'n unol â dewisiadau'r bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r staff gofal yn rhoi blaenoriaeth i dreulio amser gyda'r bobl ac yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â nhw drwy gydol y dydd. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg wrthi'n cael eu hailysgrifennu er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Mae cysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol allanol. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel, eu fetio a'u hyfforddi'n briodol ar gyfer eu rolau. Maent yn teimlo bod eu rheolwr yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn goruchwylio digwyddiadau yn y cartref yn dda ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni ei holl ddyletswyddau gofynnol ac yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u harferion dyddiol. Gall y bobl symud yn rhydd rhwng yr ystafelloedd cymunedol a'u hystafelloedd gwely, ac maent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau ac yn rhyngweithio â'r staff gofal a'i gilydd. Mae gan y bobl eu trefn arferol eu hunain, ac mae'r staff gofal yn hwyluso hyn. Caiff gweithgareddau eu trefnu ac mae diddanwyr yn ymweld â'r cartref, ac ar ddiwrnod ein hymweliad roedd parti a oedd wedi'i drefnu i'w gynnal yn yr ardd yn cael ei gynnal ym mhrif fwyty'r ganolfan oherwydd tywydd gwael. Gwelsom fod y staff gofal yn blaenoriaethu amser i eistedd a rhyngweithio â'r preswylwyr, gan gyflwyno gweithgareddau iddynt mewn ffordd naturiol. Yn ogystal ag annog y bobl i ymgysylltu â'r staff, roedd hyn hefyd yn eu hannog i ymgysylltu â'i gilydd, gan ehangu'r ymdeimlad o gymuned yn y gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yng nghartref Tŷ Llwynderw yn cefnogi'r bobl i fod mor iach â phosibl. Mae meddygon teulu, nyrsys cymunedol a gweithwyr iechyd proffesiynol allanol yn cael eu cynnwys yn rheolaidd er mwyn darparu gofal cyfannol. Mae'r canllawiau a roddir yn cael eu rhoi ar waith gan y staff gofal a chaiff meddyginiaethau eu storio a'u rhoi fel y'u rhagnodwyd. Gwnaethom arsylwi ar ran o rownd feddyginiaeth a gwelsom fod y staff gofal yn gymwys wrth roi meddyginiaeth. Mae polisi meddyginiaeth ar waith y gall y staff gofal gyfeirio ato os oes angen.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau penodol i iechyd a diogelwch eu cynnwys mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg. Caiff y rhain eu hadolygu a chaiff nodiadau eu gwneud fel rhan o adolygiadau arweinwyr tîm. Mae polisïau priodol ar waith gan gynnwys polisïau diogelu a chwythu'r chwiban, a chafodd y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Mae hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw un yn byw yn y gwasanaeth sydd angen ei wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae dogfennau dwyieithog ar gael ar gais.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom enghreifftiau cyson o ryngweithio cynnes a gofalgar rhwng y staff gofal a'r bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Llwynderw. Mae amgylchedd cymunedol cryf, a gaiff ei wella ymhellach gan fod y staff gofal yn cynnig help mewn ffordd barchus ac yn trin y bobl yn gyfartal. Roedd y bobl yn chwerthin ac yn cellwair â'r staff gofal gan wneud sylwadau fel*"I'm always happy, no complaints here at all"* wrth siarad â ni. Gwelsom aelodau o deuluoedd yn ymweld â'r cartref ac yn trafod unrhyw faterion neu bryderon â'r staff gofal a'r rheolwr mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r rheolwr yn rhoi sicrwydd, yn barod i helpu ac yn meithrin cydberthnasau da â theuluoedd y bobl.

Mae gan y staff gofal y wybodaeth sydd ei hangen i allu darparu'r gofal sydd ei angen ar y bobl ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff arweiniad gan weithwyr iechyd proffesiynol ei gofnodi yn y nodiadau adolygu a'r nodiadau dyddiol. Mae angen i'r cynlluniau personol gynnwys gwybodaeth lawn am anghenion iechyd y bobl. Caiff siartiau ategol eu llenwi'n gyson a chaiff materion neu dasgau sy'n gysylltiedig â gofal y bobl eu cyfleu'n effeithiol i'r tîm o staff er mwyn gallu cymryd camau dilynol. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus am anghenion iechyd a meddyginiaethau unigolion, a gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel a'u rhoi fel y'u rhagnodwyd.

Rhoddir dewis o fwyd i'r bobl, ac mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u dewisiadau a'u gofynion deietegol. Caiff y bwyd ei baratoi ym mhrif gegin y ganolfan, cyn cael ei weini i'r bobl yn ystafell fwyta Tŷ Llwynderw. Gall y bobl fwyta ym mhrif fwyty'r ganolfan os byddant am wneud hynny, neu os bydd ymwelwyr wedi dod i'w gweld. Mae dewis ar gael yn ystod pob pryd bwyd, a gall y bobl ofyn am brydau amgen hefyd os na fyddant yn hoffi'r dewisiadau. Mae maint y prydau hefyd yn seiliedig ar ddewis yr unigolyn.

Mae systemau ar waith i hyrwyddo prosesau rheoli heintiau a hylendid da. Gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan y staff ar gyfer gofal cyswllt agos. Mae Linc Cymru yn darparu staff domestig a staff golchi dillad bob dydd er mwyn cynnal safonau glendid.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n gwella llesiant y bobl. Mae Tŷ Llwynderw yn rhan o safle ehangach sy'n eiddo i Linc Cymru ac yn cael ei gynnal ganddo. Mae nifer o gyfleusterau ar y safle, gan gynnwys ystafell sba, salon trin gwallt, ardal awyr agored a bwyty, y gall y preswylwyr eu defnyddio os byddant am wneud hynny. Caiff ardaloedd o'r cartref a allai gynnwys sylweddau peryglus, fel yr ystafell feddyginiaeth a'r ystafell golchi dillad, eu cadw dan glo. Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod a gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan o'r adeilad.

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac mae digon o le. Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn treulio eu hamser yn y lolfa gymunedol a'r ystafell fwyta, ac mae'r staff yn hwyluso trefn arferol y bobl os byddant yn dewis dychwelyd i'w hystafelloedd gwely. Mae cyfleusterau ensuite ym mhob ystafell wely ac mae gan y preswylwyr y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddiogel ac yn gyfforddus yn eu hardaloedd unigol. Caiff ystafelloedd gwely eu personoli â dodrefn ac eiddo'r bobl.

Linc Cymru sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r eiddo. Gall y rheolwr roi gwybod am faterion cynnal a chadw a sicrhau eu bod yn cael eu datrys. Caiff gwiriadau cyfarpar tân a gwiriadau diogelwch nwy a thrydan eu cwblhau ac mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn trafod materion sy'n gysylltiedig â'r eiddo yn uniongyrchol â Linc Cymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff cyson a phrofiadol. Mae nifer o'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers iddo agor, ac mae'r staff a gyflogwyd yn fwy diweddar yn ymddangos yn gyfforddus ac yn cael eu cefnogi gan yr aelodau o staff sydd wedi gweithio yno ers cyfnod hwy. Mae'r lefelau staffio yn galluogi'r staff gofal i gefnogi'r bobl mewn ffordd bwyllog ac i dreulio amser yn ymgysylltu â nhw ac yn eu hannog i ryngweithio a dangos diddordeb drwy gydol y dydd. Rhoddodd y staff gofal adborth cadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys: *"I think it's good here at the moment, we all work really well together"* a *"[the manager] is really good, they get answers to our questions and are very open"*.

Caiff y staff gofal eu recriwtio a'u fetio'n briodol ar gyfer eu rolau. Caiff y wybodaeth recriwtio ofynnol ei chasglu gan adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol (darparwr y gwasanaeth). Mae'r rheolwr yn edrych ar eirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn gwneud penderfyniad terfynol i benodi'r unigolyn. Mae'r adran Adnoddau Dynol hefyd yn rhoi gwybod i'r rheolwr pan fydd angen i'r staff gofal ddiweddaru eu tystysgrifau DBS. Ers yr arolygiad diwethaf, penodwyd rheolwr gwasanaeth parhaol i'r safle yn hytrach nag un rheolwr a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth hwn a chwaer wasanaeth. Gwelsom effeithiau cadarnhaol y newid hwn. Mae hyfforddiant, datblygiad a chymorth ar gael i'r staff gofal, ac maent yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol a rhywfaint o hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwr yn gefnogol ac yn rhagweithiol iawn ac y byddent yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw bryderon neu faterion ag ef. Caiff sesiynau goruchwylio ffurfiol ac arfarniadau blynyddol eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Mae systemau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn monitro a hyrwyddo datblygiadau a gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth gan y staff, ymwelwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ystod ei ymweliadau monitro chwarterol. Caiff y wybodaeth o archwiliadau'r tîm rheoli o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd yn y cartref ei dadansoddi'n briodol a'i chyfuno â'r adborth hwn er mwyn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cryfderau'r gwasanaeth ond hefyd yn nodi unrhyw agweddau y mae angen cymryd camau gweithredu pellach yn eu cylch. Caiff cynllun gweithredu ei amlinellu er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Mae angen sicrhau bod y staff gofal wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf er mwyn darparu'r gofal gorau posibl. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi